# NODIADAU CYFARWYDDYD ALLANOL

# Cronfa Ddatblygu Cymru Greadigol – Gemau Galwad 2025/26

**Amserlen**

| | |
|---|---|
| **24 Ebrill 2025** | **Agor y cynllun grant ar gyfer ceisiadau** |
| **5 Mehefin 2025** | **Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais 12:00 (hanner dydd)** |

Bydd y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn eich helpu i lenwi'r cais am gyllid ar gyfer Cronfa Datblygu Cymru Greadigol (CWDF 3).

## 1. Cymru Greadigol - Cyd-destun Strategol

Cymru Greadigol yw asiantaeth fewnol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a thyfu'r diwydiannau creadigol yn y wlad. Ers ei sefydlu yn 2020, mae Cymru Greadigol wedi cefnogi amrywiaeth o lwyddiannau rhyngwladol ar draws y sectorau creadigol amrywiol, gan gynnwys teledu a ffilm, cerddoriaeth, gemau fideo, animeiddio a chyhoeddi.

Ers dros ddegawd, y Diwydiannau Creadigol yw un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn economi Cymru. Mae'n creu swyddi a chyfoeth, yn cyfrannu at frand cenedlaethol cryf, ac yn hyrwyddo Cymru yn fyd-eang. Sefydlwyd Cymru Greadigol yn benodol i roi hwb pellach i dwf y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac i gynnig gwasanaeth effeithlon, deinamig ac arloesol i'r sector.

**Uchelgais Cymru Greadigol yw sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau i greadigrwydd ffynnu drwy sbarduno twf ar draws y diwydiannau creadigol, adeiladu ar lwyddiant y presennol, a datblygu talent a sgiliau newydd.**

**Mae themâu blaenoriaeth Cymru Greadigol** (fel y nodir yn 2020) **yn cynnwys**:

- **Canolbwyntio ar Dwf** – parhau i sbarduno twf y sector Creadigol yng Nghymru gyda ffocws wedi'i dargedu'n rhanbarthol ac ar sectorau penodol.
- **Cefnogi Sgiliau** – sicrhau ein bod yn meithrin y sgiliau cywir ar draws y sector i gefnogi twf parhaus a gweithio'n agos gyda'r diwydiant.
- **Amrywiaeth i Bawb** – hyrwyddo sector amrywiol sy'n darparu cyfleoedd a chydraddoldeb i bawb, ac ar y cyd â'r diwydiant, codi safonau a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y sector.
- **Cymorth Effeithlon i'r Sector** – parhau i ymateb ac adweithio i anghenion newidiol y sector drwy ddatblygu cynlluniau cyllido i dargedu cymorth i'r diwydiant creadigol a sicrhau ein bod yn gallu ymateb ar yr un cyflymder ag mae'r sector hwn yn gweithio ynddo.
- **Adeiladu ar y Brand** – parhau i ddatblygu'r brand wrth farchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd a chyfraniad y sector creadigol at ein henw da a'n llwyddiant yn fyd-eang.

## 2. Amcanion y Gronfa

Amcan trydedd rownd Cronfa Ddatblygu Cymru Greadigol - Gemau yw helpu ymgeiswyr i greu prosiectau masnachol ar gyfer y diwydiant gemau fideo. Mae rhwng £10,000 a £50,000 o gyllid ar gael i fusnesau yng Nghymru sy'n datblygu eiddo deallusol yn seiliedig ar gynnwys

i'w ryddhau'n fasnachol. Bydd angen i brosiectau gyflwyno cysyniadau newydd ar gyfer y farchnad gemau fideo a gemau ymgolli gyda strategaethau arfaethedig clir ar gyfer y prosiect a'r farchnad sy'n helpu busnesau i sicrhau twf hunangynhaliol drwy sefydlu ffrydiau refeniw hirdymor.

Bydd angen i brosiectau llwyddiannus arddangos potensial busnes cynaliadwy, prototeip gweithredol neu gynnyrch ymarferol sylfaenol hyfyw, cynllun busnes cynhwysfawr, rhagolwg llif arian, a chyflwyniad pitshio i fuddsoddwyr ar y diwedd sy'n cynnwys fideo rhagflas neu ddemo enghreifftiol y gellir ei chwarae.

Bwriad y gronfa hon yw creu effaith barhaol yn y sector yn hytrach na darparu cyllid gweithredol parhaus i fusnesau. Bydd disgwyl i ymgeiswyr sydd wedi cael cyllid datblygu mewn rowndiau blaenorol ddangos tystiolaeth o'r hyn a ddysgwyd o brosiectau blaenorol, yn ogystal â dangos sut mae'r cais newydd hwn yn wahanol.

## 3. Pwy all wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr:

- gael pencadlys yng Nghymru sy'n cynhyrchu cynnwys digidol masnachol
- fod wedi bod yn masnachu cyn 1 Ebrill 2024 ac yn dal i fasnachu (bydd angen tystiolaeth o hyn ar ffurf cyfrifon ariannol o'r cyfnod ariannol diwethaf)
- fod wedi cofrestru at ddibenion TAW os yw trosiant y busnes yn fwy na £90,000, neu fod yn sector sydd wedi'i eithrio rhag TAW. Ceir manylion am eithriadau rhag TAW yn: https://www.gov.uk/guidance/vat-exemption-and-partial-exemption

### Unig Fasnachwyr / Partneriaethau – Meini Prawf Cymhwysedd i Ymgeisio

- Os ydych chi'n ddatblygwr ar eich liwt eich hun ar hyn o bryd, mae'n rhaid bod gennych chi ddigon o brofiad proffesiynol a rhwydwaith cadarn o gontractwyr talentog yn y DU sy'n barod i ymuno'n gyflym.
- Gall unig fasnachwyr nad ydynt yn cyflogi unrhyw staff eraill wneud cais os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf eraill. I gefnogi eu cais, bydd gofyn i'r ymgeiswyr hyn gyflwyno copi o'u Ffurflen Hunanasesu ddiweddaraf sy'n dangos yr enillion a'r dreth sy'n ddyledus, a thystiolaeth bod y taliad wedi'i wneud.
- Rhaid i chi dalu gweithwyr newydd sy'n gysylltiedig â'r cais hwn drwy Talu Wrth Ennill (PAYE).
- Os mai dim ond 1 person rydych chi'n ei gyflogi, rhaid ei dalu drwy Talu Wrth Ennill.
- Sylwch fod yn rhaid i'r 1 gweithiwr fod yn Gyfwerth ag Amser Llawn (FTE) a gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos.  Gall hyn gynnwys staff rhan amser ond rhaid iddo fod yn gyfwerth ag o leiaf 1 FTE. Hynny yw, rhaid i gyfanswm yr oriau mae gweithwyr rhan-amser yn eu gweithio'n rheolaidd gyfateb i 30 awr neu fwy yr wythnos.
- Nid ydym yn cefnogi defnyddio contractau dim oriau. Os yw'r rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gosod yn unochrog, a dylid cynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr.

### Cwmni Cyfyngedig – Meini Prawf Cymhwysedd i Ymgeisio

- Rydych chi'n gwmni Cyfyngedig ar 1 Ebrill 2024.
- Rydych chi'n cyflogi rhwng 1 a 249 o weithwyr drwy Talu Wrth Ennill ar 1 Ebrill 2024.
- Os mai dim ond 1 person rydych chi'n ei gyflogi, gall hwn fod yn berchennog y busnes, ond rhaid ei dalu drwy Talu Wrth Ennill.
- Sylwch fod yn rhaid i'r 1 gweithiwr fod yn Gyfwerth ag Amser Llawn (FTE) a gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos.  Gall hyn gynnwys staff rhan amser ond rhaid iddo fod yn

gyfwerth ag o leiaf 1 FTE. Hynny yw, rhaid i gyfanswm yr oriau mae gweithwyr rhan-amser yn eu gweithio'n rheolaidd gyfateb i 30 awr neu fwy yr wythnos.
- Nid ydym yn cefnogi defnyddio contractau dim oriau. Pan fydd y rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gosod yn unochrog, a dylid cynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr.

### Meini prawf allweddol y Gronfa Gemau i ymgeiswyr

Rhaid i gwmnïau sy'n gwneud cais:

- arddangos hanes llwyddiannus o ddatblygu gemau neu gynnwys digidol. Bydd yr hyn mae'r cyfarwyddwr, y prif weithredwr neu gyfranddalwyr y cwmni wedi'i gyflawni hefyd yn cael ei ystyried yn dderbyniol.
- arddangos bod yr ymgeiswyr yn berchen ar o leiaf 49% o'r hawliau pan fo eiddo deallusol yn cael ei ddatblygu a'i gadw.
- profi nad yw'r busnes yn ddibynnol ar gyllid Cymru Greadigol a gall ddangos ei fod yn datblygu i fod yn fenter sy'n ariannol gynaliadwy.

### Meini prawf cyffredinol y Gronfa i ymgeiswyr

- Nid yw'r gronfa hon ar gyfer 'meddalwedd fel gwasanaeth' (SaaS) neu fentrau 'technoleg' y tu allan i'r Diwydiannau Creadigol, er enghraifft yn y sectorau meddygol neu addysgol.
- Rhaid i fusnesau a gefnogir fwriadu parhau i fasnachu a chynnal y swyddi sy'n bodoli adeg ymgeisio y tu hwnt i 1 Ebrill 2026.
- Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno gan berchennog y busnes ac nid gan asiantau sy'n gweithredu ar ei ran. Bydd ceisiadau a gyflwynir gan asiant ar ran busnesau yn cael eu gwrthod.
- Ni fydd y gronfa hon yn cefnogi busnesau masnachfraint.
- Bydd angen i ymgeiswyr brofi nad yw'r busnes yn ddibynnol ar gyllid Cymru Greadigol a gall ddangos ei fod yn datblygu i fod yn fenter sy'n ariannol gynaliadwy.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgareddau penodol sy'n debygol o fod yn ddadleuol o ran defnyddio arian cyhoeddus yn briodol. Mae hyn yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â (1) hyrwyddo dibenion gwleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (7) unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru.
- Ni fydd unrhyw brosiect sy'n arwain at ddiswyddo staff yn cael ei gefnogi drwy'r gronfa hon.

## 4. Pa fathau o brosiectau fyddem ni'n eu cefnogi?

Rhaid i'r cais am gyllid fod yn gysylltiedig â datblygu prosiect gêm fideo.

### Gofynion ar gyfer y prosiect Gemau Fideo a Gemau Ymgolli

Mae Cymru Greadigol yn cynnig cymorth ariannol i stiwdios gemau yng Nghymru ar gyfer datblygu prosiectau a chysyniadau newydd i'w gwerthu'n fyd-eang ar blatfformau fel PlayStation, Xbox, Steam a dyfeisiau symudol. Rydym yn awyddus i gefnogi timau datblygu yng Nghymru sydd â'r uchelgais i dyfu busnes masnachol cynaliadwy drwy ein buddsoddiad. Rhaid i'r prosiect gemau arfaethedig fod yn arloesol gyda photensial masnachol. Bydd angen llwybr clir i'r farchnad gyda gwaith ymchwil yn sail i unrhyw ragamcanion refeniw.

Rhaid i bob ymgeisydd greu cyflwyniad pitshio a delweddau proffesiynol sy'n dangos potensial y prosiectau hyn i lwyddo'n fasnachol.

Y Gofynion:

- Rhaid cynllunio'r prosiectau fel eu bod yn canolbwyntio ar botensial masnachol a'u bod yn addas ar gyfer buddsoddi pellach
- Rhaid creu'r prosiectau gyda'r diben o'u cyflwyno i fuddsoddwyr
- Rhaid cadw'r eiddo deallusol neu enillion masnachol sylweddol yng Nghymru
- Rhaid i'r prosiectau osod esiampl o ran dylunio digidol, profiad defnyddwyr a gweithredu

Hoffem weld ceisiadau sydd yn:

- Cynnwys timau â sgiliau hanfodol a chynlluniau prosiect sy'n caniatáu digon o amser i gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus.
- Ystyried strategaethau mynediad i'r farchnad a mynediad posibl at gyfleoedd buddsoddi ychwanegol, gan gynnwys arian cyfatebol, naill ai ar y cyd â'r datblygiad hwn neu ar ôl cwblhau.
- Gallu cael eu marchnata ar lefel ryngwladol.

**Ystyriaethau cyffredinol y prosiect**

- Rhaid i'r prosiect gael dyddiad dechrau a gorffen clir a chanlyniadau sefydlog.
- Rhaid i geisiadau gynrychioli gwerth da am arian a bydd hyn yn rhan o'r asesiad. Nid ydym yn disgwyl i ymgeiswyr wneud cais am yr uchafswm oni ddangosir yr angen yn glir yn eu cais.
- Mae angen i chi ddangos model ariannol ar gyfer parhau â'r ddarpariaeth y tu hwnt i oes y buddsoddiad hwn, ac ni ellir dibynnu ar grant i wneud hynny.
- Croesewir prosiectau sy'n gallu darparu'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg), ond nid yw hyn yn orfodol.

## 5. Y Cynnig Cyllido – beth allwch chi wneud cais amdano?

Gall ymgeiswyr ofyn am rhwng **£10,000** a **£50,000** ar gyfer prosiectau gemau fideo a gemau ymgolli.

Gall Cymru Greadigol gefnogi hyd at 100% o gostau cymwys, ond bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ceisiadau sy'n defnyddio **arian cyfatebol**. Yn ogystal, cewch eich annog i geisio sicrhau arian cyfatebol o'r tu allan i'r sector cyhoeddus i gynyddu'r effaith ac i gefnogi eich cais.

Mae costau datblygu yn gymwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 hyd at 31 Mawrth 2026. Ni ellir ystyried costau ôl-weithredol nac estyniadau y tu hwnt i'r amserlen hon ar hyn o bryd. Mae blwyddyn ariannol Cymru Greadigol yn dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026.

Dim ond un cais a ganiateir fesul cwmni. Os ydych chi eisoes yn derbyn cyllid ar gyfer prosiect arall, cysylltwch â Cymru Greadigol cyn gwneud cais.

Nid oes rhaid ad-dalu'r cyllid; fodd bynnag, bydd methu â chyrraedd targedau penodol (fel cynnyrch anghyflawn, oedi sylweddol, neu wybodaeth goll mewn hawliad) yn golygu y byddwn yn adennill arian.

Caiff pob cais ei adolygu'n unigol, ac mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn llwyr o ran taliadau grant.

**Dyma enghreifftiau o wariant:**

Costau cymwys ar gyfer yr holl gyllid datblygu

Yr holl weithgareddau datblygu gan gynnwys:

- Cyflogau (dim ond drwy dystiolaeth Talu Wrth Ennill/CThEM a chostau gweithwyr llawrydd (anfonebau))
- Gorbenion (lle y gellir cyfiawnhau hynny ac yn dibynnu ar y fethodoleg dosrannu y cytunwyd arni)
- Costau teithio a chynhaliaeth, hynny yw petrol, bwyd neu lety (costau rhesymol ac yn benodol gysylltiedig â'r prosiect)
- Paratoi triniaeth/beibl
- Datblygu'r sgript a'r stori
- Costau technegol a chynhyrchu
- Creu cyflwyniad a/neu ddec pitshio, hynny yw triniaeth/darluniau (cymeriadau, amgylchedd a chefndiroedd)/profion animeiddio/demo
- Costau creu bwrdd stori ac animatig
- Hawliau eiddo deallusol/cyfreithiol
- Marchnata cychwynnol llai na 10% o gyfanswm gwerth y prosiect
- Cyfieithu (os yw'n berthnasol)
- Ymchwil (os yw'n berthnasol)
- Paratoi cyllideb cynhyrchu
- Paratoi cynllun cyllido
- Gweithgareddau amserlennu cynhyrchiad
- Paratoi strategaeth farchnata
- Ffilmio promo/peilot/rhagflas neu Sizzle Reel
- Dylunio'r cysyniadau – fideo chwarae/crynodeb pitshio
- Creu Dogfen Dylunio Gêm
- Ysgrifennu
- Prototeip digidol
- Creu cynnwys/asedau UI a dylunio graffeg
- Creu cynnwys/asedau gweledol 3d
- Datblygu/rhaglennu
- Graddfa PEGI
- Llogi ystafelloedd
- Costau swyddfa/gweinyddol

Costau sydd dim yn gymwys:

- Costau cychwyn busnes, e.e. recriwtio a chostau offer ac ati.
- Costau sy'n codi cyn dyddiad dechrau'r cyfnod cyllido (ar ôl i ni dderbyn y llythyr cynnig wedi'i lofnodi).
- Talu dyled flaenorol (cyn 1 Ebrill 2025).
- TAW y gellir ei hawlio'n ôl.
- Bonws, difidendau.
- Costau wedi'u hariannu o ffynonellau eraill o arian cyhoeddus.
- Swm ar gyfer incwm a gollwyd neu i ail-chwyddo eich cronfeydd wrth gefn.
- Ardrethi busnes.
- Ffioedd cyfreithiol.
- Costau dileu swyddi.
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru.

- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo credoau mudiadau gwleidyddol neu ffydd.
- Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur am ddim neu'n annog hynny
- Cyllid mewn nwyddau. Mae cyllid mewn nwyddau (*in kind*) fel arfer yn cyfeirio at gyfraniadau a chymorth nad yw'n ariannol o ffynonellau eraill.
- Taliadau llog.
- Costau nad ydynt yn ymwneud yn benodol â phrif elfennau eich prosiect.
- Gwariant y tybir ei fod yn ormodol neu'n ddiangen i'r prosiect.
- Unrhyw gostau cyfalaf fel datblygiadau adeiladu neu waith adnewyddu ar raddfa fawr.
- Unrhyw gostau sy'n codi cyn i chi ddychwelyd eich llythyr cynnig wedi'i lofnodi atom.
- Swm ar gyfer incwm a gollwyd neu i ail-chwyddo eich cronfeydd wrth gefn.
- Prosiectau sy'n dibynnu ar, neu'n annog, llafur di-dâl neu rad.
- Ni ellir defnyddio'r arian i reoli a chydbwyso cyfrifon o fewn gwahanol weithrediadau'r un busnes.
- Sylwer - Ni allwn dderbyn 'arall' fel disgrifiad o gostau / eitem mewn ceisiadau.

### 6. Ni chewch wneud cais am y canlynol

Ni ellir defnyddio'r grant ar gyfer y gweithgareddau canlynol:

- Prosiectau corfforol sy'n seiliedig ar gemau.
- Platfformau, gwefannau neu feddalwedd fel gwasanaeth (SaaS).
- Cysyniadau technoleg.
- Rhaglenni addysgol.
- Datblygu Busnes cyffredinol.
- Prosiectau anfasnachol, trydydd sector neu brosiectau eraill yn y sector cyhoeddus.
- Prosiectau sydd eisoes wedi cael elfen sylweddol o gyllid cyhoeddus.
- Prosiectau a gefnogwyd yn flaenorol.
- Prosiectau cyntaf busnes newydd heb unrhyw hanes blaenorol.
- Prosiectau sy'n cynnwys costau marchnata neu gyfalaf yn bennaf (rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r prosiectau hyn yn cynnwys llawer o amser staff wrth greu gwaith newydd).
- Prosiectau sydd eisoes wedi cael eu datblygu'n sylweddol.

Hefyd, ni chaiff busnesau sydd wedi'u clustnodi i'w cau, neu sydd mewn perygl o gau, wneud cais. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus barhau i weithredu am o leiaf 12 mis ar ôl cael unrhyw gyllid. Os caiff busnes ei werthu neu ei ailgyfeirio, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill unrhyw gyllid sydd wedi cael ei ddarparu.

Bydd angen i bob ymgeisydd gyflwyno cyfrifon busnes perthnasol fel rhan o'r broses ymgeisio. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi yma, ac mewn dogfennau perthnasol eraill, yn cael ei defnyddio i bennu a yw'r busnes yn anghymwys i gael cyllid o ganlyniad i'w amgylchiadau ariannol.

### 7. Rheoli cymorthdaliadau yn y DU

Rhaid i chi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r cytundebau perthnasol sydd yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol. Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi ddarparu manylion unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi'i dderbyn.

Os byddwch yn llwyddiannus, bydd eich cais yn cyfrif fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn unol â Rhan 3 Pennod 2 o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 (neu SAFA* /cymorth de

minimis yn flaenorol), yn unol ag Erthygl 3.2 paragraff 4 o Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE. Mae hwn yn cyfyngu ar faint o gymorth y gall busnes ei dderbyn gan y wladwriaeth.

Os ydych wedi derbyn MFA, SAFA neu de minimis yn y gorffennol, dylech fod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig pan gawsoch y cymorth hwnnw. Bydd angen i chi ychwanegu'r dyfarniad hwn at gyfanswm cyffredinol eich MFA dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Rhaid iddo fod yn llai na thua £315,000 ynghyd ag unrhyw ddatganiadau neu hawliadau MFA yn y dyfodol, a rhaid i chi ddatgan y swm i ni yn ystod y cam ymgeisio.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Dibenion yn cael eu darparu yn unol â'r meini prawf Cymorth Gwladwriaethol y dyfernir y cyllid arnynt.

Os byddwch yn croesi'r trothwy hwn, yna chi fydd yn wynebu unrhyw gamau gweithredu a ddaw yn sgil hynny, gan gynnwys ad-dalu'r cymorth a dderbyniwyd.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y Canllawiau Statudol ar Drefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU

## 8. Sut bydd y broses ymgeisio'n gweithio?

**Amserlenni**

| | |
|---|---|
| **24 Ebrill 2025** | **Ceisiadau yn agor ar gyfer y cynllun grant** |
| **5 Mehefin 2025** | **Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais 12:00 (hanner dydd)** |

Gall ein tîm roi cyngor ar gymhwysedd a'r broses ymgeisio ond nid yw trafod eich prosiect gydag aelod o'r tîm yn arwydd y bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo. Mae hon yn gronfa gystadleuol lle bydd pob prosiect yn cael ei asesu a'i sgorio yn erbyn y meini prawf safonol. I ofyn am ffurflen gais, neu i gael cyngor ar wneud cais, cysylltwch â Cymru Greadigol.

Bydd ceisiadau ar gyfer y rownd gychwynnol hon o'r Gronfa yn agor ar 24 Ebrill 2025. Dylid cyflwyno'r ceisiadau i cymorthariannucymrugreadigol@llyw.cymru
erbyn 12:00 (hanner dydd) 29 Mai 2025. Ni fydd unrhyw geisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Bydd unrhyw rowndiau pellach yn amodol ar gyllid.

**Y broses ymgeisio ac asesu**

**Y ffurflen gais**

Mae 6 adran i'r ffurflen gais:

**Adran 1 – Manylion yr Ymgeisydd**

Yn yr adran hon, mae'n rhaid ichi roi manylion unrhyw swyddi ar adeg gwneud y cais a'r rheini y rhagwelir y byddant yn cael eu diogelu neu eu creu o ganlyniad i'r cyllid grant hwn. Gofynnir i chi hefyd ddarparu:

**Adran 2 – Manylion y Prosiect**

Yn yr adran hon, mae'n rhaid i chi egluro eich prosiect arfaethedig, pa effaith gaiff y grant ar y busnes a sut y bydd yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd eich busnes. Dylech ddarparu:

- Disgrifiad manwl o'r gêm
- Tystiolaeth o ymchwil marchnad a hyfywedd masnachol y prosiect (mae'n hanfodol bod gennych ddealltwriaeth glir o'ch pwynt gwerthu unigryw neu beth sy'n eich gwneud yn wahanol i eraill yn y farchnad)
- Y cynllun ar gyfer dosbarthu'r gêm i'r farchnad
- Unrhyw ddiddordeb cychwynnol gan ddarlledwyr, cyhoeddwyr neu ddosbarthwyr yn y gêm
- Manylion unrhyw arian cyfatebol
- Manylion sianel bresennol y gellir ei defnyddio i farchnata'r cynnyrch
- Cadarnhad nad yw'ch busnes yn ddibynnol ar gyllid grant a gall ddangos ei fod yn datblygu i fod yn fenter sy'n ariannol gynaliadwy

Rheoli Prosiect

- Cynllun gwaith sy'n nodi cerrig milltir allweddol y prosiect
- Tystiolaeth o sgiliau, profiad a gallu perthnasol y rhai sy'n cyflawni ac yn arwain y prosiect hwn, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rheoli prosiect, cyllideb, llif arian ac amserlenni

Cynllun rheoli risg

- Bydd gennych dîm datblygu profiadol, naill ai'n cynnwys gweithwyr yng Nghymru neu gontractwyr yn y DU. Mae disgrifio cymwysterau a sgiliau penodol aelodau eich tîm yn dangos eich gallu cyffredinol i ddatblygu.
- Os ydych chi'n hunangyflogedig, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth bod gennych chi ddigon o brofiad proffesiynol a rhwydwaith cadarn o gontractwyr talentog yn y DU sy'n barod i ymuno'n gyflym.
- Dylech gynnal ymchwil drylwyr a chael cynllun wedi'i ddiffinio'n dda ar gyfer y camau dilynol yn dilyn y grant. Mae hyn yn cynnwys adnabod cyllidwyr posibl ar gyfer gweddill y prosiect ac amlinellu eich strategaeth ar gyfer cyhoeddi, ymysg ystyriaethau eraill.
- Disgrifiwch ddyfodol eich busnes, sut bydd y grant yn gwella eich cynaliadwyedd a'ch twf, a'ch gweledigaeth y tu hwnt i'r prosiect hwn.

**Allbynnau**

Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r prosiect hwn, byddwn yn mesur allbynnau allweddol:

- Gwariant ar gynnyrch, gwasanaethau a gweithlu yng Nghymru
- Eiddo deallusol sydd wedi'i greu / cadw
- Nifer y swyddi a gafodd eu creu
- Nifer yr unigolion / gweithwyr llawrydd a gafodd eu cefnogi
- Mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn y sector
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Cynnydd mewn lefelau sgiliau
- Mwy o wariant ar ymchwil a datblygu (masnacheiddio)
- Cyfleoedd i wella cynaliadwyedd
- Mwy o gyfleoedd i fusnesau creadigol

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddewis allbynnau perthnasol wrth wneud cais, a bydd rhain yn cael eu nodi ar y llythyr cynnig.

Nid yw cynhyrchu gêm mewn iaith benodol yn un o ofynion y cynllun hwn. Ond rydym yn eich annog i wneud gemau'n ddwyieithog neu'n amlieithog.

Os ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddatblygu'r gêm, gallwch nodi sut bydd hyn yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050.

Gofynnir ichi hefyd ddangos sut bydd eich prosiect yn cyd-fynd ag Addunedau'r Contract Economaidd a pholisi Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.

Mae 4 adduned yn y Contract Economaidd, ac yn yr adran hon, mae'n rhaid ichi egluro'n gryno sut mae eich busnes yn cyd-fynd â 2 neu ragor o'r addunedau hyn. I'ch helpu i ddeall addunedau'r Contract Economaidd, edrychwch ar Y Contract Economaidd | Busnes Cymru (LLYW.CYMRU).

Yn ogystal â'r adran ar Addunedau Economaidd, mae'r adran hon yn gofyn am eglurder ac ymrwymiad ar eich arferion gwaith teg. Mae gwaith teg yn golygu bod amodau amlwg yn bodoli yn y gwaith sy'n golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed a'u cynrychioli, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith iach a chynhwysol lle caiff hawliau eu parchu.

Bydd y camau bydd sefydliad yn eu cymryd i fynd ar drywydd gwaith teg yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y sefydliad hwnnw. Efallai na fydd rhai camau'n briodol nac yn ymarferol i bob sefydliad, mater i bob sefydliad yw penderfynu pa gamau sy'n addas.

Gweler hefyd Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU i gael rhagor o wybodaeth i'ch helpu i lenwi'r adran hon o'r cais.

Gofynnwn i chi hefyd ddisgrifio llinell amser y prosiect, yr adnoddau sydd eu hangen, unrhyw risgiau cysylltiedig a'r hyn y gallwch ei wneud i liniaru'r rhain.

**Adran 3 – Gwybodaeth Ariannol**

Yn yr adran hon bydd angen ichi roi manylion am gostau'r prosiect, unrhyw ffynonellau o arian cyfatebol a faint o gyllid sydd ei angen arnoch i alluogi'r prosiect i fwrw ymlaen er mwyn i ni benderfynu ar hyfywedd y prosiect.

**Adran 4 – Marchnata, cyhoeddusrwydd a'r Gymraeg**

Yn yr adran hon bydd angen ichi ddarparu manylion am ba gyhoeddusrwydd fydd yn rhan o'r prosiect, ac unrhyw ddefnydd o'r Gymraeg.

**Adran 5 – Rhestr wirio ar gyfer yr wybodaeth ofynnol**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol yn ogystal â'r ffurflen gais.

**Adran 6 – Datganiadau**

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y ddogfen ganllawiau hon ac yn deall y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant gan fod hyn yn rhan o'r contract rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi'n cytuno â'r telerau ac amodau yn y ddogfen hon ac y gallwch chi gadarnhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn y cais yn wir ac yn gywir, mae'n rhaid ichi roi tic yn y blwch a chyflwyno eich cais.

Mae hwn yn grant cystadleuol ac felly mae'r adran hon yn rhan bwysig iawn o'r cais gan y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch yma i sgorio hyfywedd ac effaith eich prosiect.

Ar ôl ei llenwi, cyflwynwch eich ffurflen gais a'r dogfennau ategol i cymorthariannucymrugreadigol@llyw.cymru

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod hi'n **bosibl gwrthod** ceisiadau sydd â data anghyflawn neu anghywir neu geisiadau heb y dogfennau ategol angenrheidiol.

Ni ddylech ddechrau ar y prosiect nes bod eich cais wedi'i gymeradwyo a'ch bod wedi derbyn llythyr cynnig. Os byddwch yn gwneud hynny, gallech annilysu eich cais yn llwyr, hyd yn oed os byddwch yn llwyddiannus.

**Dogfennau Ategol**

Bydd angen i geisiadau ar gyfer y rownd Gemau CWDF gyflwyno'r wybodaeth ganlynol ynghyd â ffurflen gais gyflawn:

| | |
|---|---|
| 1 | • CVs staff allweddol gyda thystiolaeth o hanes llwyddiannus o ddatblygu cynnwys digidol neu gynnwys traddodiadol gyda llwybr neu wasanaeth newydd wedi'i nodi ar gyfer y farchnad. Bydd yr hyn mae'r cyfarwyddwr, y prif weithredwr neu gyfranddalwyr y cwmni wedi'i gyflawni hefyd yn cael ei ystyried yn dderbyniol. |
| 2 | • Cadarnhad ble mae'r eiddo deallusol yn cael ei ddatblygu a'i gadw. Rhaid i ymgeiswyr ddal o leiaf 49% o'r hawliau. |
| 3 | • Cyfrifon ariannol (y cyfrifon diweddaraf a'r cyfrifon rheoli os ydynt yn hŷn na 12 mis) |
| 4 | • Cyfriflenni banc ar gyfer y 3 mis blaenorol i gadarnhau bod y busnes yn masnachu'n weithredol ac fel tystiolaeth o lif arian digonol |
| 5 | • Cynllun llif arian cynhwysfawr a realistig ar gyfer y prosiect. Dylai gynnwys dadansoddiad manwl o'r holl gostau (mae amcangyfrifon yn dderbyniol os nad yw'r union ffigurau ar gael). |
| 6 | • Rhaid darparu tystiolaeth o ymchwil i'r farchnad, gan ystyried y gynulleidfa darged a dadansoddiad o'r cystadleuwyr yn ofalus (gan edrych ar gemau tebyg yn y farchnad a'u metrigau perfformiad fel niferoedd llwytho i lawr a rhestrau dymuniadau). Nid oes gennym ddiddordeb mewn gwybodaeth gyffredinol am y farchnad diwydiant gemau. Dylai'r manylion fod yn benodol i'ch gêm chi. |
| 7 | • Rhagolygon gwerthu am 12 mis ar ôl lansio'r gêm yn y pen draw. |
| 8 | • Cyflwyniad pitshio cryno gyda delweddau. Bydd hyn yn galluogi'r gwerthuswyr ac aelodau'r panel i gael gwell dealltwriaeth o edrychiad a theimlad cyffredinol y gêm. |

## 9. Gwerthuso Prosiectau

Bydd Cymru Greadigol yn dyfarnu cyllid i geisiadau sy'n cyd-fynd â'n prif egwyddorion, fel y nodir yn y tabl isod. Er na fyddem yn disgwyl i brosiectau unigol gyflawni pob un o'r rhain yn uniongyrchol, rhaid i brosiectau gyflawni yn erbyn y meini prawf penodol ar gyfer y cynllun hwn. Bydd prosiectau sy'n targedu'r meysydd hyn yn uniongyrchol yn cael eu blaenoriaethu. Felly, dylid teilwra eich cais i ddangos sut rydych chi'n cyflawni'r rhain:

| **Prif egwyddorion cyllido Cymru Greadigol**: |
|---|
| Dylai cyllid a ddyfernir i fusnesau: |
| **Cydweddu â Strategaethau**<br>Cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru – Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu i gyflawni uchelgeisiau Cymru Greadigol ar gyfer y diwydiannau creadigol, a'r blaenoriaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi sgiliau a datblygu talent, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei ystyr ehangaf, gwaith teg, cynaliadwyedd, a hyrwyddo ein diwylliant a'r iaith Gymraeg.  Bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y prosiectau hynny sy'n gwneud gwahaniaeth i dirwedd y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn y tymor canolig i'r tymor hir. |
| **Creu'r manteision mwyaf i Gymru, gan gynnwys manteision economaidd**<br>Bydd cyllid yn cael ei dargedu at brosiectau sy'n sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiad, i sicrhau bod cyllidebau cyfyngedig yn darparu'r gwerth gorau posibl i Gymru. |

Ar ôl i chi gyflwyno eich cais cyflawn ac ar ôl dyddiad cau yr alwad, byddwn yn cynnal gwiriadau a gwerthusiadau o'r holl brosiectau sydd wedi dod i law. Rydym yn gobeithio rhoi gwybod i bob ymgeisydd am ein penderfyniadau cyn gynted â phosibl ar ôl dyddiad cau'r alwad.

Caiff pob prosiect ei werthuso mewn dau gam:

- Cam cyntaf – cynnal archwiliadau i sicrhau bod yr holl feini prawf cymhwysedd sylfaenol wedi cael eu bodloni yn Atodiad 1, gan gynnwys alinio'r prosiect â'n prif egwyddorion cyllido fel yr amlinellir yn y tabl uchod. Bydd ceisiadau / prosiectau nad ydynt yn bodloni'r holl wiriadau cymhwysedd, neu nad ydynt yn bodloni ein hamcanion strategol ar gyfer cyllid, yn cael eu gwrthod.

- Ail gam – Bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd uchod ac sy'n cyd-fynd â'n prif egwyddorion cyllido yn cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso yn Atodiad 2. Mae hwn yn gynllun cystadleuol ac felly, oherwydd y gyllideb sydd ar gael, dim ond y prosiectau sy'n cael y sgoriau uchaf fydd yn cael eu cefnogi.

- Bydd pob cais a gwybodaeth ategol yn destun gwiriadau ariannol a phrosesau diwydrwydd dyladwy llawn. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'ch rhagamcanion ariannol, archwiliad twyll, ac archwiliadau ar Gyfarwyddwyr eich cwmni.

- Lle nad oes gwybodaeth ar gael (e.e. unig fasnachwyr nad ydynt wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau) gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth berthnasol ar wahân at y diben hwn.

- Os ydych chi'n ymwneud â busnes sydd mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn gallu gwneud cais am ragor o gyllid a dylech drafod hyn â ni cyn gwneud unrhyw gais.

- Bydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl wiriadau cymhwysedd (gan gynnwys diwydrwydd dyladwy) yn cael eu gwrthod a rhoddir gwybod iddynt ar y cam hwn.

- Bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd ac wedi bodloni'r gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu hasesu gan swyddogion Cymru Greadigol ac

wedyn bydd y sgoriau'n cael eu dilysu gan Banel Asesu. Bydd swyddog o adran berthnasol arall, y tu allan i Cymru Greadigol, yn rhan o'r broses asesu hon.

- Bydd prosiectau sy'n cyrraedd yr isafswm sgôr pasio yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i'w cymeradwyo. Os bydd gwerth y ceisiadau cymwys yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael mewn unrhyw flwyddyn ariannol, bydd y ceisiadau sy'n cael y sgoriau uchaf yn cael blaenoriaeth am gymorth.

- Ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Gweinidogion, rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr llwyddiannus a bydd llythyrau dyfarnu'n cael eu dosbarthu.

- Bydd gofyn i ymgeiswyr anfon eu ceisiadau, cyfrifon, ffurflenni hawlio ac adroddiadau yn ddigidol, drwy e-bost, i'r cyfeiriad canlynol: creativewalesfundingsupport@gov.wales.

- Dylai ffurflenni cais gynnwys llofnodion wedi'u sganio, neu fel arall, rhaid i'r person a enwir ar y ffurflen ei hanfon o'i gyfeiriad e-bost.

- Dim ond un cais llwyddiannus y gall pob ymgeisydd ei dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol (tan 31 Mawrth 2026).

**Cymeradwyo**

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael llythyr Cynnig Grant a fydd yn amlinellu manylion telerau ac amodau ein cynlluniau grant a manylion sy'n berthnasol i'r gronfa hon. Ar ôl i'r ymgeiswyr gael y llythyr hwn, ac ar yr amod eu bod yn fodlon â'r telerau ac amodau sy'n cael eu hamlinellu yn y cynnig grant, bydd angen iddynt ei lofnodi a'i ddychwelyd atom cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn cytuno ar yr amserlenni ar gyfer cyflawni a chwblhau'r prosiect, ynghyd ag amserlen y taliadau, gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Byddwn yn dal ati i gadw cofnod o'r allbynnau y cytunwyd arnynt i'w cyflawni am hyd at 12 mis ar ôl i'r cyfnod cyllido ddod i ben a byddant yn amod o'r cynnig grant.

Fel rhan o'n cymorth, bydd disgwyl i bob cais ddarparu adborth parhaus gyda gwybodaeth berthnasol bob mis i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein cronfa ddata busnes. Mae Cymru Greadigol wedi datblygu ffurflen adrodd safonol a rhoddir copi i ymgeiswyr llwyddiannus yn y cam cynnig cyllid i gasglu'r data angenrheidiol sydd angen ei adrodd yn ôl i ni am hyd at 12 mis ar ôl diwedd y CWDF.

**Apelio**

Mae CWDF yn gronfa ddewisol heb broses apelio benodol. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus ar ôl i ni wneud ein penderfyniad. I'ch atgoffa, mae hon yn gronfa gystadleuol gyda chyllideb gyfyngedig, felly bydd pob prosiect yn cael ei asesu a'i sgorio a dim ond y prosiectau sy'n cael y sgoriau uchaf fydd yn gallu cael eu cefnogi.

**Proses hawlio ac amodau'r gronfa**

Bydd y dyfarniad yn cael ei dalu ar sail gwariant sydd wedi'i dalu. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth bod digon o lif arian neu arian wrth gefn ar gael i ariannu cyfanswm costau'r prosiect ar y pwynt darparu. Bydd yr hawliadau ar gyfer elfen grant Llywodraeth Cymru yn cael eu talu ar ôl cyflawni'r prosiect, hynny yw nid yw'r taliad yn cael ei wneud ymlaen llaw. Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan y rhai

hynny sy'n derbyn grant [HTML] | LLYW.CYMRU

**Amserlen Hawlio**

Gofynnir ichi roi amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer taliadau dros gyfnod cyllido llawn eich prosiect rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Bydd angen cyflwyno pob hawliad erbyn y dyddiad cau ar 1 Mawrth ar gyfer hawliad terfynol 2026.

**Talu a Monitro**

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen bodloni'r amodau talu a nodir yn amserlen y llythyr cynnig.
- 'Costau a Dalwyd' yw costau nwyddau rydych chi wedi talu amdanynt neu a setlir fel arall gennych chi. Bydd angen tystiolaeth o daliadau ar gyfer pob sefydliad.
- Bydd ffurflenni hawlio'n cael eu hanfon ar gais ac mae modd eu cyflwyno dros e-bost i cymorthariannucymrugreadigol@llyw.cymru. Bydd angen darparu tystiolaeth lawn cyn gwneud unrhyw daliadau i brosiectau am ôl-daliadau. Rhoddir manylion yn eich llythyr cynnig am yr hyn y bydd angen i chi ei ddarparu wrth hawlio.
- Bydd y taliad yn cael ei wneud 4 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

**Monitro ar ôl Cwblhau**

Byddwn yn dal ati i gadw cofnod o'r allbynnau y cytunwyd arnynt i'w cyflawni am hyd at 12 mis ar ôl i'r cyfnod cyllido ddod i ben a byddant yn amod o'r cynnig grant.
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso llwyddiant y grant hwn ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad mewnol o'r CWDF. Rhagwelir y bydd yr ymchwil hon yn archwilio gweithrediad ac effaith y gweithgareddau a gyflawnwyd. Bydd yn asesu i ba raddau mae modd priodoli'r allbynnau a'r canlyniadau'n uniongyrchol i weithgareddau'r cynllun ac yn archwilio a wireddwyd effeithiau ehangach a ragwelwyd neu nas rhagwelwyd.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru neu drydydd parti a fydd yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi at ddibenion ymchwil a gwerthuso a/neu ichi roi adborth ar eich profiad o'r cynllun. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddienw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

**Ad-dalu Grantiau**

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Llywodraeth Cymru fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb, a gorfodir hyn drwy ofyn am brawf ar ôl dyfarnu'r grant.

**Y Contract Economaidd**

**Addunedau'r Contract Economaidd a Gwaith Teg**

Mae'r Contract Economaidd yn ymrwymiad i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus sy'n blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru ar yr un pryd ag adeiladu economi llesiant fwy cydnerth a ffyniannus.  Wrth galon ein dull gweithredu Rhywbeth am Rywbeth, mae cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau ar y camau y bydd y naill ochr a'r llall yn eu cymryd sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau ac i wella bywydau pobl ar hyd a lled Cymru.

**Cyhoeddusrwydd**

Bydd angen i bob cais llwyddiannus:

- Cytuno i gael ei gynnwys yn yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, deunydd marchnata a datganiadau i'r wasg y byddwn yn eu cynhyrchu.

- Fel amod cyllido, byddwch yn cytuno i ymgymryd â hyd at 3 blynedd o gyhoeddusrwydd ar y cyd â Cymru Greadigol a gofynnir i chi ddarparu cronfa o ddelweddau a fideos, gyda hawliau perthnasol gan y prosiect i ni eu defnyddio yn y wasg ac mewn cyhoeddusrwydd. Dylid trafod unrhyw faterion yn ymwneud â hyn gydag aelod o dîm Cymru Greadigol. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu cyn rhyddhau'r deunydd yn gyhoeddus.

- Hoffem ychwanegu ein holl ymgeiswyr at ein cronfa ddata marchnata i wneud yn siŵr eich bod yn cael gwybodaeth amserol am gyfleoedd cymorth pellach gan Cymru Greadigol, ond nid yw hyn yn un o amodau'r cyllid.

- Bydd disgwyliad hefyd y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn rhannu delweddau perthnasol a deunyddiau cyhoeddusrwydd â Cymru Greadigol inni eu defnyddio yn ôl yr angen.

**Y Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo ac i ddatblygu'r Gymraeg. Mae'r diwydiannau creadigol yn chwarae rhan allweddol drwy gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae blaenoriaethau iaith Gymraeg yn un o'r amrywiol feysydd y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n hasesiad o addasrwydd strategol wrth adolygu prosiectau.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos y Gymru yr hoffem ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni'r holl nodau, nid dim ond un neu ddau. Bydd nodi ac egluro sut mae eich prosiect yn cyflawni'r nodau hyn yn bwysig wrth asesu'r cais.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Llywodraeth Cymru yw'r Rheolydd Data ar gyfer unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei darparu. Mae manylion llawn ein polisi preifatrwydd ar gael ar dudalen yr Hysbysiad Preifatrwydd.

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn gymorth i ddatblygu cronfa ddata o fusnesau. A fyddech cystal â chadarnhau yn yr adran ar eich ffurflen gais eich bod yn fodlon bwrw ymlaen ar y sail hon er mwyn ichi allu parhau i gael cymorth a chyngor gan Lywodraeth Cymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen, deall a derbyn y 'Nodiadau Cyfarwyddyd' a'r 'Hysbysiad Preifatrwydd' **cyn** ichi ddechrau'r cais.

Cymru Greadigol
Creative Wales

**Atodiad 1 - Meini Prawf Gwerthuso**

**Cam 1 – Meini Prawf Cymhwysedd**

| **Meini prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr** |
|---|
| • Rhaid i ymgeiswyr fod yn gweithredu yn y sector Gemau yng Nghymru. |
| • Rhaid bod y busnes wedi bod yn masnachu cyn 1 Ebrill 2024 ac yn dal i fasnachu (bydd angen tystiolaeth o hyn ar ffurf cyfrifon ariannol o'r cyfnod ariannol diwethaf) |
| • Os yw trosiant y busnes yn fwy na £90,000, rhaid bod y busnes wedi cofrestru at ddibenion TAW neu fod y sector wedi'i eithrio rhag TAW. Ceir manylion am eithriadau rhag TAW yn: https://www.gov.uk/guidance/vat-exemption-and-partial-exemption |
| • Gall unig fasnachwyr nad ydynt yn cyflogi unrhyw staff eraill wneud cais os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf eraill. I gefnogi eu cais, bydd gofyn i'r ymgeiswyr hyn gyflwyno copi o'u Ffurflen Hunanasesu ddiweddaraf sy'n dangos yr enillion a'r dreth sy'n ddyledus, a thystiolaeth bod y taliad wedi'i wneud. |
| • Rhaid eich bod yn talu gweithwyr drwy Talu Wrth Ennill ar 1 Ebrill 2024. |
| • Os mai dim ond 1 person rydych chi'n ei gyflogi, rhaid ei dalu drwy Talu Wrth Ennill. |
| • Rhaid bod gan yr uwch reolwyr/tîm rheoli hanes llwyddiannus o ddatblygu cynnwys digidol neu gynnwys traddodiadol gyda llwybr neu wasanaeth newydd wedi'i nodi ar gyfer y farchnad. Bydd yr hyn mae'r cyfarwyddwr, y prif weithredwr neu gyfranddalwyr y cwmni wedi'i gyflawni hefyd yn cael ei ystyried yn dderbyniol. Fel arall, rhaid bod ganddynt un neu ragor o aelodau tîm mwy profiadol/ar lefel mentor mewn swyddi allweddol sydd wedi datblygu a rhyddhau gemau yn y blynyddoedd diwethaf. |
| • Rhaid i'r busnes brofi nad yw'n ddibynnol ar gyllid Cymru Greadigol a gall ddangos ei fod yn datblygu i fod yn fenter sy'n ariannol gynaliadwy. |
| • Pan fo eiddo deallusol yn cael ei ddatblygu a'i gadw, rhaid i ymgeiswyr ddal o leiaf 49% o'r hawliau. |

**Cam 2 – Meini Prawf Gwerthuso**

Bydd angen i brosiectau fodloni'r egwyddorion cyllido a nodir uchod er mwyn symud i'r ail gam i'w hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| ***MPG*** | ***Meini Prawf Gwerthuso*** | ***Pwysoliad*** | ***Sgôr*** |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cydweddu Strategaethau**<br>Bydd angen i geisiadau gydweddu â'r egwyddorion cyllido cyffredinol a dangos tystiolaeth glir o hynny yn y prosiect:<br>• mae ganddo'r potensial i ddod â manteision economaidd sylweddol i Gymru (creu swyddi/defnyddio cadwyn gyflenwi)<br>• mae'n gynaliadwy y tu hwnt i'r cyfnod cyllido cychwynnol<br>• bydd yn cefnogi gweithlu creadigol Cymru yn uniongyrchol i fynd i'r afael â bylchau amlwg mewn sgiliau a rhoddir blaenoriaeth i raglenni meithrin sgiliau a thalent cymeradwy yng Nghymru<br>• dangos sut bydd y prosiect o fudd i economi Cymru, megis creu swyddi a defnyddio cyflenwyr lleol<br>• mae'n arloesol gyda photensial masnachol cryf<br>• mae'n rhoi sylw i gynhwysiant ac amrywiaeth | 20 | /5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • mae'n ymgysylltu â'r ecosystem leol, gan ddefnyddio gweithwyr llawrydd a chyflenwyr yng Nghymru<br>• mae wedi ystyried sut mae'r prosiect yn cyflawni ar draws prif bolisïau Llywodraeth Cymru. | | |
| **2** | **Meini prawf y prosiect**<br>Bydd angen i ymgeiswyr / busnesau ddangos tystiolaeth o'r canlynol:<br><br>• rydych wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu'r cysyniad cychwynnol ac mae gennych naill ai arddangosiad prawf-o-gysyniad neu ddeunyddiau rhag-gynhyrchu gweledol eraill, sy'n eich galluogi i gyflwyno eich prosiect i banel cyllid a swyddogion gwerthuso Cymru Greadigol<br>• mae gennych ddealltwriaeth glir o'ch pwynt gwerthu unigryw neu beth sy'n eich gwneud yn wahanol i eraill yn y farchnad. Bydd cyfleu hyn yn glir yn cyfrannu at yr hyder yn eich prosiect<br>• mae gennych chi dîm sydd â'r sgiliau angenrheidiol, naill ai'n cynnwys staff cyflogedig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu gontractwyr yn y DU, sydd eisoes wedi'i sefydlu neu y gellir eu cynnull yn gyflym os bydd eich cais yn llwyddiannus. Mae disgrifio rhinweddau penodol eich tîm yn dangos eich gallu cyffredinol i ddatblygu.<br>• mynediad at rwydwaith cymorth busnes sefydledig.<br>• dangos bod gwaith ymchwil trylwyr wedi cael ei wneud a bod cynllun clir ar gyfer y camau nesaf y tu hwnt i'r grant, gan gynnwys ffynonellau posibl i ariannu gweddill y prosiect neu gynlluniau i dalu am gostau parhaus<br>• rydych yn gallu mynegi rhagolygon eich busnes, gan nodi sut y bydd y grant yn cael effaith gadarnhaol ar eich cynaliadwyedd a'ch twf fel stiwdio, ac amlinellu eich gweledigaeth y tu hwnt i'r prosiect penodol hwn.<br>• rydych wedi cynnal ymchwil drylwyr i'r farchnad, gan ddangos bod y prosiect yn cynnig potensial masnachol sylweddol.<br>• rydych wedi atodi cyflwyniad pitshio o ansawdd uchel, ynghyd â rhagflas/Sizzle Reel neu ddemo chwarae<br>• mae gan y prosiect bwyntiau gwerthu unigryw neu mae'n cynnig rhywbeth gwahanol i'r farchnad.<br>• mae'r tîm perthnasol eisoes yn ei le neu'n barod i ddechrau gweithio.<br>• bydd yr eiddo deallusol yn cael ei gadw yng Nghymru, neu fod cyfle i Gymru gael elw masnachol sylweddol.<br>• tystiolaeth eich bod chi a'r tîm yn gallu cyflawni safonau gwaith rhagorol | × 20 | /5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • mae gennych gynllun realistig i barhau i ariannu'r prosiect nes bydd yn sicrhau buddsoddiad i dyfu.<br>• nodi pa farchnadoedd rhyngwladol allweddol rydych chi'n bwriadu eu targedu ac ar ba blatfformau y bydd y gêm yn cael ei dosbarthu | | |
| **3.** | **Tystiolaeth o'r Angen**<br>Bydd angen i geisiadau ddangos:<br><br>• angen sylweddol am gyllid gan y llywodraeth.<br>• tystiolaeth ar sut y bydd y prosiect yn cael effaith ar y sector dros gyfnod hwy<br>• tystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil ar y galw yn y farchnad am yr eiddo deallusol, y cysyniadau tebyg, a'r gwahaniaethau allweddol. | × 5 | /5 |
| **4.** | **Risgiau, Gweithredu a Chyflawni'r Prosiect**<br>Bydd angen i geisiadau wneud y canlynol:<br><br>• darparu rhagolwg llif arian a dadansoddiad cynhwysfawr o'r gyllideb sy'n dangos hyfywedd ariannol y prosiect ac yn dangos bod yr ymgeisydd wedi cynllunio'n ofalus ar gyfer risgiau ariannol posibl<br>• darparu cynllun ariannol manwl, gan gynnwys cyllideb y prosiect, rhagolwg llif arian, a rhagolygon ariannol gan roi dadansoddiad o sut caiff y cyllid ei ddefnyddio.<br>• tystiolaeth o ymchwil marchnad drylwyr sy'n cefnogi potensial masnachol y prosiect, gan nodi'r gynulleidfa darged, y mynediad i'r farchnad a rhagolygon refeniw<br>• tystiolaeth eich bod wedi dewis tîm sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol gan arddangos eu gallu i gyflawni'r prosiect hwn yn llwyddiannus<br>• cynnwys cynllun rheoli risg manwl sy'n amlinellu'r risgiau a'r strategaethau posibl sydd ar waith i'w lliniaru<br>• cynnwys naill ai cyfrifon wedi'u hardystio'n annibynnol neu ddatganiadau ariannol archwiliedig a chyfrifon rheoli, datganiadau banc ac unrhyw ddogfennau ategol eraill y gofynnir amdanynt. | × 5 | /5 |
| **5.** | **Canlyniadau'r Prosiect**<br>Bydd angen i geisiadau wneud y canlynol:<br>• dangos bod y prosiect yn cydweddu â'r egwyddorion cyllido cyffredinol ac yn sicrhau'r manteision gorau posibl i Gymru<br>• darparu allbynnau a chanlyniadau allweddol ac esbonio'n glir sut y bydd y rhain yn cael eu mesur i fonitro a gwerthuso llwyddiant y prosiect<br>• canfod cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau aelodau presennol y tîm a gweithwyr llawrydd<br>• dangos bod amrywiaeth a chynhwysiant wedi cael eu hystyried a'u tystiolaethu | × 10 | /5 |

| 6. | **Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian**<br>Bydd angen i geisiadau gynnwys:<br><br>• tystiolaeth o sut mae'r cynnig cyffredinol yn cynnig gwerth am arian<br>• dadansoddiad o'r gweithgarwch a'r costau cysylltiedig a sut mae'r rhain yn rhoi'r gwerth gorau<br>• copïau o unrhyw ddyfynbrisiau (os yn berthnasol)<br>• costau prosiect, amserlen hawlio, caffael a gynlluniwyd<br>• arian cyfatebol sydd wedi'i gadarnhau a heb ei gadarnhau<br>• sut mae'r buddion disgwyliedig yn gymesur â chostau<br>• sut y bydd gweithgareddau'r prosiect yn parhau ar ôl i'r prosiect ddod i ben<br>• dangos y gall y busnes weithredu'n annibynnol ar gyllid grant a'i fod yn datblygu tuag at gynaliadwyedd ariannol. | × 10 | /5 |
|---|---|---|---|

**Cyfanswm o 350**

**Matrics sgorio**

| Sgôr | Dangosydd | A yw'n gyllidadwy? |
|---|---|---|
| 5 | Eithriadol – Roedd yr ymateb yn gadarn, yn fanwl ac yn seiliedig ar yr holl agweddau perthnasol, gan ddarparu tystiolaeth gref y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, heb unrhyw wendidau na meysydd sy'n peri pryder o ran y cynnwys. | Ydy |
| 3 | Ansawdd uchel – Roedd yr ymateb yn cyflwyno tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, yn dda mewn sawl ffordd ond gyda mân wendidau neu bryderon ynghylch y cynnwys. | Ydy |
| 1* | Gwael – Nid oedd yr ymateb yn darparu llawer o dystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, roedd gwendidau neu bryderon mawr o ran y cynnwys. Nid oedd llawer o fanylder/ eglurder yn yr ymateb. | Na |
| 0* | Annerbyniol – Nid oedd yr ymateb yn darparu tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni; roedd yn gwbl anfoddhaol o ran y cynnwys. Nodwyd gwendidau, problemau neu fylchau sylweddol. Roedd yr ymateb wedi'i gyfleu'n wael a/neu'n anghyson. | Na |

*Os cewch sgôr o 1 neu 0 ar gyfer unrhyw gwestiwn, bydd eich cais yn cael ei wrthod.